# World Day for Cultural Diversity for Dialogue and Development – 21st May

Following the 2001 adoption of the Universal Declaration on Cultural Diversity, the United Nations General Assembly declared 21st May to be World Day for Cultural Diversity for Dialogue and Development to help raise awareness of, and celebrate cultural diversity. Much work has been done and continues to be done worldwide, to encourage individuals, communities and organisations to look at what action they can take to support diversity and inclusion.

The United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC) exists to ensure that every person under the age of 18 have their human rights met regardless of ethnicity, religion, language or gender and Article 30 of the UNCRC states that every child has the right to 'learn and use the language, customs and religion of their family, whether or not these are shared by the majority of the people in the country where they live'.

In 2020, media coverage on campaigns such as the Black Lives Matter drew attention to the need to improve diversity and inclusion and how we all have a responsibility to learn, respect and understand one another's culture and background.

As role models for children, Childcare and Play Workers play a vital role in modelling the acceptance of diversity, cultures, values and beliefs.

The National Minimum Standards set out by Care Inspectorate Wales (CIW) requires all CIW registered providers to meet 'the needs and preferences of individual children (including those from minority ethnic communities) in relation to their home language(s), intended medium of education (e.g. Welsh or English) and their social, cultural and religious practices are understood and catered for (standard 4.3)'. But this is not exclusive to those settings registered with CIW - but to all Childcare and Play providers.

To support a fully inclusive and diverse environment, staff and children need to have an understanding about different religions and cultures in order to be respectful to others, and to feel respected.

Here are 10 ways to help your Setting recognise and celebrate cultural diversity, not just on World Diversity Day, but every day:

1. Ask the children to research and develop a year-round calendar of cultural events and celebrations and plan activities, snacks, games and discussions around each. It is important that Childcare and Play workers use these celebrations to talk about why they are celebrating and what the meaning is behind it.
2. Opt for books, literature, posters and films that include characters representing all children. Where this isn't possible look to create your own. It is important that children can identify themselves and family in all play resources.
3. Have signage displayed in different languages such as 'Welcome' or 'Hello' around the room. If a child attends your setting who is familiar with another language or uses another language in the home try and learn a few words or key phrases to help them feel understood and heard. You can download for free our multilingual 'Welcome' poster for your setting here: https://www.clybiauplantcymru.org/pdfs/Welcome%20Poster.pdf

4. Food can be a great way to celebrate cultural diversity. It not only teaches children about the different foods from around the world but provides an opportunity to taste food that they may not have tried before.
5. Explore games from around the world. Ideas can be found on the internet but ask children, or even family members to come in and show how to play a game from their heritage. The children could even create an activity book made up of all the different games they have learnt so it can be picked up and used over and over again.
6. Have an equal and diverse range of dolls, costumes, role play items and toys available at all times to 'normalise' diversity and demonstrate 'real life'. You can include utensils from different cultures in your role play areas, or musical instruments from around the world.
7. Ensure you have crayons and paints available that represent different skin colours.
8. Involve parents, carers and family members. A child's home life is likely to be the key source of their identity and it is vital to ensure children continue to develop a positive sense of their own identity within all environments. By working in partnership with families or carers Childcare and Play Practitioners can play a huge part in reinforcing this.
9. Encourage all staff to research different cultures and what it means to have a diverse setting. Encourage them to attend training that may help them to do this and to understand what their roles are.
10. Regularly review your Equal Opportunities policy and download a copy of our Equality Play Checklist - both can be found within our Stepping Out resource at www.clybiauplantcymru.org along with our Culture Zone pack which is full of activities and ideas to support your setting!

When considering culture, don't forget our Welsh heritage too! Our website hosts an array of Bi-lingual resources to use in your setting, along with Welsh language resources and YouTube videos to help your Setting increase daily usage of the Welsh language.

**Some useful dates for your diary:**
February – Chinese New Year
March – St David's Day
April - Ramadan
October – Black History Month
November – Diwali

Yn dilyn mabwysiadau'r Datganiad Byd-eang ar Amrywedd Diwylliannol, datganodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig y byddai Mai 21ain yn Ddiwrnod Byd-eang Amrywedd Diwylliannol, Deialog a Datblygiad er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o amrywedd

diwylliannol, a'i ddathlu.  Mae llawer o waith wedi ei wneud, ac yn dal i gael ei wneud ar hyd a lled y byd, i annog unigolion, cymunedau a chyfundrefnau i edrych ar y camau y gallent eu cymryd i atgyfnerthu amrywedd a chynhwysiant.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn bodoli i sicrhau y gwireddir hawliau dynol pob person o dan 18 blwydd oed, waeth beth fo'u hethnigrwydd, crefydd iaith neu rywedd, ac mae Erthygl 30 yr UNCRC yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i 'ddysgu a defnyddio'r iaith, yr arferion a chrefydd eu teulu, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif trigolion eu gwlad ai peidio'.

Yn 2020 tynnodd adroddiadau ar y cyfryngau ac ymgyrchoedd megis Black Lives Matter sylw at yr angen i well amrywedd a chynhwysiant, a sut mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i ddysgu, parchu a deall diwylliant a chefndir ein gilydd.

Yn fodelau rôl i blant, mae gan Weithwyr Gofal Plant a Chwarae rôl hollbwysig yn modelu'r derbyniad o amrywedd, diwylliannau, gwerthoedd a chredoau.

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a osodir i lawr gan Arolygiaeth Cymru (AGC) yn gofyn bod pob darparydd sydd wedi cofrestru gydag AGC yn gosod y dylid sicrhau "y deellir anghenion a dewisiadau plant unigol (gan gynnwys y rheini sydd o gymunedau ethnig lleiafrifol) mewn perthynas ag iaith/ieithoedd eu cartref, y cyfrwng addysg (ee Cymraeg neu Saesneg) y bwriedir ei ddefnyddio a'u harferion cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol, ac y darperir ar gyfer hyn" (safon 4.3)';

Ond nid i'r lleoliadau hynny sydd wedi eu cofrestru ag AGC yn unig y mae hyn yn berthnasol – ond i bob darparydd Gofal Plant a Chwarae.

I atgyfnerthu amgylchedd sy'n gwbl gynhwysol ac yn amrywiol, mae angen i'r staff a'r plant fod â dealltwriaeth o wahanol grefyddau a diwylliannau er mwyn bod yn barchus tuag at eraill ac i deimlo eu bod yn cael eu parchu.

Dyma 10 ffordd o helpu'ch Lleoliad i gydnabod a dathlu amrywedd diwylliannol, nid ar Ddiwrnod Amrywedd Byd-eang yn unig, ond bob diwrnod:

1. Gofynnwch i'r plant gynnal ymchwil a datblygu calendr blwyddyn o ddigwyddiadau a dathliadau diwylliannol, ac yna gynllunio tameidiau bwyd, gemau a thrafodaethau ar bob un. Mae'n bwysig bod gweithwyr Gofal Plant a Chwarae'n defnyddio'r dathliadau hyn i siarad am y rheswm y maen nhw'n dathlu, a beth yw'r ystyr y tu ôl iddo.
2. Dewiswch lyfrau, llenyddiaeth, posteri a ffilmiau sy'n cynnwys cymeriadau sy'n cynrychioli pob plentyn. Lle nad yw hyn yn bosibl, ystyriwch greu rhai eich hun.  Mae'n bwysig bod plant yn gallu eu gweld nhw eu hunain a'u teulu mewn pob math o adnoddau chwarae.
3. Bod ag arwyddion wedi eu harddangos mewn gwahanol ieithoedd, megis 'Croeso' neu 'Helo' o gwmpas yr ystafell. Os oes plentyn sy'n mynychu'ch lleoliad yn gyfarwydd ag iaith arall, neu'n defnyddio iaith arall yn y cartref, ceisiwch ddysgu ychydig eiriau neu ymadroddion allweddol i'w helpu i deimlo eu bod yn cael eu deall a'u clywed.  Gallwch lawrlwytho ein poster 'Croeso' amlieithog ar gyfer eich lleoliad yma:

4. Gall bwyd fod yn ffordd dda o ddathlu amrywedd diwylliannol. Nid yn unig y mae'n dysgu plant am y gwahanol fwydydd a geir o gwmpas y byd, y mae hefyd yn rhoi cyfle i flasu bwyd na fyddent efallai wedi rhoi cynnig arnynt o'r blaen.
5. Ewch ati i wybod mwy am gemau o wahanol rannau o'r gemau y maent wedi eu dysgu er mwyn gallu ei godi a'i ddefnyddio dro ar ôl tro.
6. Byddwch â dewis cyfartal ag amrywiol o ddoliau, gwisgoedd, eitemau chwarae rôl a theganau a fydd ar gael ar bob adeg i 'normaleiddio' amrywedd ac arddangos 'bywyd go iawn'. Gallwch gynnwys offer o wahanol ddiwylliannau yn eich mannau chwarae rôl, neu offerynnau cerdd o bob rhan o'r byd.
7. Gwnewch yn siwr fod gennych greonau a phaentiau ar gael sy'n cynrychioli gwahanol liwiau croen.
8. Cynhwyswch rieni, gofalwyr ac aelodau o'r teulu. Bywyd cartref y plentyn, yn fwy na thebyg, fydd prif ffynhonnell eu hunaniaeth, ac mae'n bwysig sicrhau bod plentyn yn parhau i ddatblygu synnwyr cadarnhaol o'u hunaniaeth eu hunain ym mhob amgylchedd. Drwy weithio mewn partneriaeth â theuluoedd neu ofalwyr gall Ymarferwyr Gofal Plant a Chwarae fod â rhan enfawr yn atgyfnerthu hun.
9. Anogwch yr holl staff i ymchwilio i wahanol ddiwylliannau a'r hyn a olyga i fod yn lleoliad amrywiol. Anogwch nhw i fynychu hyfforddiant a allai eu helpu i wneud hyn ac i ddeall pa rolau sydd ganddynt yn hyn o beth.
10. Adolygwch eich polisi Cyfle Cyfartal yn rheolaidd a lawrlwythwch gopi o'n Rhestr Wirio Chwarae Cyfartal – ceir hyd i'r ddau yn ein hadnodd Camu Allan ar www.clybiauplantcymru.org ynghyd â'n pecyn Parth Natur sy'n llawn o weithgareddau a syniadau i gefnogi'ch lleoliad!

Wrth ystyried diwylliant, peidiwch ag anghofio ein treftadaeth Gymreig ychwaith! Mae dewis helaeth o adnoddau dwyieithog ar ein gwefan i chi eu defnyddio yn eich lleoliad, ynghyd â'n hadnoddau Cymraeg a fideos YouTube i helpu'ch Lleoliad i gynyddu'r defnydd dyddiol o'r iaith Gymraeg.

| **Dyddiadau defnyddiol i'ch dyddiadur** |
|---|
| Chwefror – Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd |
| Mawrth – Dydd Gwyl Dewi |
| Ebrill – Ramadan |
| Hydref – Mis Hanes Pobl Dduon |
| Tachwedd - Diwali |